OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 3000 (Cy.249)

DATGANOLI, CYMRU
REFFERENDA, CYMRU
CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Taliadau Swyddogion Cyfrif) 2010

Gwnaed - - - - 15 Rhagfyr 2010

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan erthygl 13(1)(b), (2) a (6) o Orchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm Etc.) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Taliadau Swyddogion Cyfrif) 2010 .

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Yr uchafswm adenilladwy cyffredinol

2. Yr uchafswm adenilladwy cyffredinol ar gyfer ardal bleidleisio(**2**) yw'r swm a restrir yng ngholofn 4 o'r Tabl yn yr Atodlen.

(**1**) O.S. 2010/2837.

(**2**) Diffinnir "voting area" ("*ardal bleidleisio*") yn erthygl 2(1) o Orchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm Etc.) 2010.

Yr uchafswm adenilladwy ar gyfer gwasanaethau penodedig

3. Rhaid i gyfanswm y taliadau sy'n adenilladwy gan swyddog cyfrif(**3**)o ran y gwasanaethau o'r disgrifiad penodedig yn erthygl 4 beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob ardal bleidleisio yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen.

4. Dyma'r gwasanaethau penodedig—

(a) gwneud trefniadau ar gyfer y refferendwm(**4**);

(b) cyflawni swyddogaethau'r swyddog cyfrif o ran y refferendwm; a

(c) cynnal y refferendwm .

Yr uchafswm adenilladwy ar gyfer treuliau penodedig

5. Rhaid i gyfanswm y taliadau sy'n adenilladwy gan swyddog cyfrif o ran y treuliau o'r disgrifiad penodedig yn erthygl 6 beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob ardal bleidleisio yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen.

6. Dyma'r treuliau penodedig—

(a) penodi a thalu personau i gynorthwyo'r swyddog cyfrif (gan gynnwys personau y cyfeirir atynt yn adran 128(4) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000)(**5**);

(b) teithio a chynhaliaeth ar gyfer y swyddog cyfrif ac unrhyw berson y cyfeirir ato ym mharagraff (a);

(c) argraffu neu gynhyrchu papurau pleidleisio;

(ch) argraffu a danfon dogfennau pleidleisio drwy'r post (gan gynnwys y papur pleidleisio drwy'r post, y datganiad pleidleisio drwy'r post, amlen y papur pleidleisio a'r brif amlen)(**6**);

(d) argraffu a danfon y cardiau pleidleisio;

(dd) argraffu a chyhoeddi hysbysiadau a dogfennau ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r refferendwm;

(e) rhentu, gwresogi, goleuo, glanhau, addasu neu adfer (gan gynnwys atgyweirio unrhyw ddifrod a wneir i) unrhyw adeilad neu ystafell;

(f) darparu a chludo cyfarpar y mae ei angen i gynnal y refferendwm;

(ff) darparu meddalwedd a chyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chostau cysylltiedig;

(g) darparu diogelwch a dulliau o storio blychau papurau pleidleisio, papurau pleidleisio a dogfennau eraill ar gyfer y refferendwm neu mewn cysylltiad ag ef;

(ng) cynnal y gwirio a'r cyfrif (gan gynnwys unrhyw ailgyfrif) ;

(h) darparu a chael hyfforddiant;

(i) deunyddiau swyddfa, postio a danfon, ffôn, argraffu, cyfieithu, bancio a chostau amrywiol; a

(**3**) Diffinnir "accounting officer" ("*swyddog cyfrif*") yn erthygl 2(1) o Orchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm Etc.)2010.

(**4**) Diffinnir "the referendum" ("*y refferendwm*") yn erthygl 2(1) o Orchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm Etc.) 2010.

(**5**) 2000 p.41

(**6**) I gael ystyr "postal ballot paper" ("*papur pleidleisio drwy'r post*") gweler y diffiniad yn erthygl 2(1) o Orchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm Etc.) 2010 ac i gael ystyr "ballot paper envelope" ("*amlen y papur pleidleisio*") a "covering envelope" ("*y brif amlen*") gweler paragraff 1(1) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwnnw. Ystyr "Postal Voting Statement" ("*Datganiad Pleidleisio drwy'r Post*") yw'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff 192) o'r Rhan honno o'r Atodlen honno.